**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 MEHEFIN 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 26 Mehefin 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge; Chris Bithell; Derek Butler; David Cox; Adele Davies-Cooke; Ian Dunbar; David Evans; Patrick Heesom; Dave Hughes; Kevin Hughes; Christine Jones; Richard Jones; Richard Lloyd; Billy Mullin; Mike Peers; Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Marion Bateman a Veronica Gay

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd Cindy Hinds ar gyfer eitemau rhif 6.2 (059373) a 6.4 (059613) ar yr agenda.
Y Cynghorydd David Williams ar gyfer eitemau rhif 6.2 (059373) a 6.4 (059613) ar yr agenda.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Cynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

## 8. DATGAN CYSYLLTIAD

Doedd gan y Cynghorydd Christine Jones ddim cysylltiad i'w ddatgan yn eitem 6.1 (059217) ar yr agenda, ond dywedodd ei bod wedi datgan yn glir ei bod yn cefnogi'r cais ac felly byddai'n siarad fel Aelod Lleol yn unig a gadawodd y cyfarfod ar ôl iddi siarad a chyn i'r drafodaeth a'r bleidlais ddigwydd.

Doedd gan y Cynghorydd Derek Butler ddim cysylltiad i'w ddatgan yn eitem rhif 6.1 (059217) ar yr agenda, ond yn unol â Chod Ymddygiad Cynllunio, dywedodd ei fod wedi cwrdd â'r ymgeisydd ar fwy na thri achlysur ond ddim mewn cysylltiad â'r cais.

## 9. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s55311/Late%20Observations.pdf?LLL=0

## 10. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 29 Mai 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 11. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio'r un o'r eitemau.

## 12. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

## 13. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 17 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac nid oedd neb o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.45 pm)

..................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell gweddarlledu:: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 26 MEHEFIN 2019

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059514 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn cymeradwyaeth amlinellol i godi 283 o dai yng Ngwersyll De RAF Sealand, Welsh Road, Sealand | Siaradodd Jan Lourens, yr ymgeisydd a Jon Penrose, yr asiant, am gyfanswm o 3 munud i gefnogi'r cais. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 059373 | Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd | Cais Llawn - Adeiladu siop gyfleus ac ardal maes parcio cysylltiedig yn Millstone Inn, Ffordd Penarlâg, Penyffordd. | Siaradodd Mr Walker yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr R. Davies, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Mr A. Wright, Cyngor cymuned Pen-y-ffordd o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorwyr Cindy Hinds a David Williams am y cais fel Aelodau Lleol. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 059474 | Cyngor Tref Shotton | Cais amlinellol i adeiladu 14 tŷ yng Nghlwb Cymdeithasol Shotton Lane, 72 Shotton Lane, Shotton. | | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag |

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | argymhelliad y swyddog, gan nodi y dylai paragraff 2.01 gael ei ddiwygio i dynnu'r cyfeiriad at Ardal Chwarae Plant North Street, a nodi 33 Club Play Area, Shotton yn ei le. |
| 059613 | Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd | Cais Llawn – Codi annedd sengl unllawr a garej unllawr, gan gynnwys yr holl waith cysylltiedig arall (ôl-weithredol) yn Talossamme, Lôn yr Abad, Penyffordd. | Siaradodd Mr D. Owen yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr A. Wright, Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorwyr Cindy Hinds a David Williams am y cais fel Aelodau Lleol. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog, a gyda'r amod ychwanegol am dirlunio priodol. |
| 058818 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Codi 2 annedd a garej ar wahân ar dir oddi ar Ffordd Alltami, Bwcle | Siaradodd Mr D. Owen, yr asiant, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, bod amod rhif 4 yn cael ei ymestyn er mwyn cynnal arolwg o'r cloddiau presennol. |